# Cynllun Gwella Pont Afon Dyfrdwy A494 – Digwyddiad Gwybodaeth Gyhoeddus

# A494 River Dee Bridge Improvement Scheme – Public Information Event

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

## Mae'r A494, yn ogystal â'r A55, yn ffurfio coridor Glannau Dyfrdwy rhwng Queensferry ac Ellesmere Port, gan gysylltu Gogledd Orllewin Lloegr i Ogledd Cymru.

Mae croesfan yr Afon Dyfrdwy, a adeiladwyd yn 1960, yn rhan hanfodol o'r coridor hwn, gan gario tua 62,000 o gerbydau'r dydd - llawer mwy na'r cynllun gwreiddiol.

Mae'r groesfan yn gyswllt pwysig, gan gludo cyfuniad o draffig lleol, busnes a hamdden i amrywiaeth eang o lefydd, gan gynnwys Caergybi ac ymlaen i'r porthladdoedd yn Iwerddon. Mae hefyd yn ffordd allweddol i dwristiaid, sy'n defnyddio'r bont i deithio i lawer o gyrchfannau poblogaidd ar draws Gogledd Cymru.




## The A494, together with the A55, form the Deeside corridor between Queensferry and Ellesmere Port, connecting the North West of England to North Wales.

The River Dee crossing, which was constructed in 1960, forms a critical part of this corridor, carrying approximately 62,000 vehicles per day, far higher than it was designed for.

The crossing is a major link, carrying a combination of local, business and leisure traffic to a wide variety of destinations, including Holyhead and on to the ports in Ireland. It is also a key route for tourists, who use the bridge to travel to many popular destinations across North Wales.



M M MOTT MACDONALD

Richards, Moorehead & Laing Ltd

# Cynllun yr A494 Drome Corner i Ewloe a'r Llwybr Coch

# The A494 Drome Corner to Ewloe scheme and the Red Route

Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Cynigiwyd cael pont newydd ar draws A494 yr Afon Dyfrdwy am y tro cyntaf fel rhan o Gynllun Gwella'r A494 o Drome Corner i Ewloe i fynd i'r afael â thagfeydd yng nghoridor Sir y Fflint. Yn dilyn Ymchwiliad Cyhoeddus yn 2007, cytunodd y Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth gydag argymhelliad yr Arolygydd na ddylai'r cynllun fynd ymlaen ymhellach oherwydd yr effaith ar y gymuned leol.

Yn dilyn yr Ymchwiliad, ymgymerwyd â gwaith pellach i edrych ar opsiynau addas i gynyddu capasiti o fewn y coridor a arweiniodd at gyhoeddi'r Llwybr Coch fel dewis gorau Llywodraeth Cymru ym mis Medi 2017. Mae'r Llwybr Coch yn cynyddu capasiti ar yr A548 presennol gyda ffordd gyswllt newydd i'r A55 yn Llaneurgain.

Nid yw'r Llwybr Coch yn cynnwys cynnig i gael pont newydd ar draws A494 yr Afon Dyfrdwy. Bwriad y Llwybr Coch yw lleihau tagfeydd o fewn coridor Glannau Dyfrdwy, a'r camau nesaf fydd datblygu cynllun cychwynnol, sy'n ystyried y materion amgylcheddol a pheirianneg yn fwy manwl.

Er bod y 'Llwybr Coch' yn ystyriaeth yn natblygiad Cynllun Croesi'r Afon Dyfrdwy A494, mae dal angen pont newydd yn lle'r un bresennol.

## Symud Gogledd Cymru Ymlaen

Mae Symud Gogledd Cymru Ymlaen yn strategaeth gan Lywodraeth Cymru sy'n ceisio creu rhwydwaith trafnidiaeth dibynadwy ac effeithlon ar draws y Gogledd, gan gysylltu pobl a busnesau i swyddi a gwasanaethau. Mae Cynllun Gwella Pont Afon Dyfrdwy A494, sy'n nodi'r angen i gael pont newydd, yn fesur allweddol o fewn y strategaeth a bydd yn rhan bwysig o'r cynlluniau i gefnogi llwyddiant Gogledd Cymru yn y dyfodol.

Replacing the A494 River Dee bridge was first proposed as part of the A494 Drome Corner to Ewloe Major Improvement Scheme which aimed to address congestion within the Flintshire corridor.

Following a Public Inquiry in 2007, the Minister for Economy and Transport agreed with the Inspector's recommendation that the scheme should not proceed any further due to the impact on the local community.

Following the Inquiry, further work was undertaken to look at suitable options to increase capacity within the corridor which led to the announcement of the Red Route as the Welsh Government's preferred option in September 2017. The Red Route increases capacity on the existing A548 with a new road link to the A55 at Northop.

The Red Route does not include a proposal to replace the A494 River Dee Bridge. The Red Route is intended to ease congestion within the Deeside corridor and the next steps will be to develop a preliminary design, which considers the environmental and engineering issues in more detail.

Although the 'Red Route' is a consideration in the development of the A494 River Dee Crossing Scheme, there is still a need to replace the bridge.

## Moving North Wales Forward

Moving North Wales Forward is a Welsh Government strategy which looks to create a reliable and efficient transport network across North Wales, connecting people and businesses to jobs and services. The A494 River Dee Bridge Improvement Scheme, which sets out the need to replace the bridge, is a key measure within the strategy and will form an important part of plans to support the success of North Wales in the future.



MOTT MACDONALD
Richards, Moorehead & Laing Ltd

# Pam mae angen y cynllun hwn?

# Why the scheme is needed

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

## Oherwydd oedran y bont, ceir tystiolaeth o ddirywiad i nodweddion strwythurol allweddol a fyddai'n anodd eu hatgyweirio.

Mae dec concrit y bont mewn cyflwr gwael gydag arwyneb anwastad. Efallai y bydd yn y dyfodol yn effeithio ar gapasiti'r groesfan. Mae'r strwythur sy'n cynnal y bont hefyd mewn cyflwr gwael.

Os na wnawn ni rywbeth, bydd y problemau strwythurol hyn yn parhau i waethygu, ac efallai y bydd angen i ni gyflwyno cyfyngiadau pwysau a/neu gau lonydd i gynnal a chadw pont Afon Dyfrdwy.

Byddai ailosod y rhannau sydd wedi dirywio yn golygu cau'r A494 am gyfnodau sylweddol, gan arwain at oedi difrifol a thagfeydd i ddefnyddwyr y bont a'r rheini sy'n teithio ar y rhwydwaith ffyrdd lleol. Hefyd, ateb dros dro yn unig fyddai ailosod rhannau o'r bont. yn Ni fyddai'n mynd i'r afael yn llawn â'r materion strwythurol yn yr hirdymor.

Yn ychwanegol at y problemau strwythurol, nid yw'r bont yn bodloni safonau modern:

- Mae'r lefelau traffig presennol y tu hwnt i gapasiti ffordd ddeuol dwy lôn.
- Nid oes llain galed ar y bont. Pe byddai car yn torri lawr, gallai achosi tagfeydd hir wrth agosáu at y bont.
- Pan fo tagfeydd yn digwydd, mae'r gwasanaethau brys yn cael trafferth croesi'r bont.
- Mae'r llwybr troed ar y bont yn gul iawn.
- Mae'r llain ganol a'r parapetau canolog yn is na'r safon.

Credwn mai'r ateb gorau yw ystyried cynigion i gael pont newydd i wella diogelwch, cryfhau capasiti'r ffordd yn yr hirdymor a gwella amseroedd teithio.




## Due to the age of the bridge, there is evidence of deterioration to key structural features which would be difficult to repair.

The bridge's concrete deck is in a poor condition which results in an uneven surface and may in the future affect the crossing's weight carrying capacity. The abutments which support the bridge are also in a poor state of repair.

If we do nothing, these structural issues will continue to deteriorate and we may need to introduce weight restrictions and/or lane closures to maintain the crossing of the River Dee.

Replacing the deteriorated parts would require the closure of the A494 for significantly long periods, resulting in severe disruption and delays to journeys both for bridge users and for those travelling on the local road network. Replacement of parts would also be a temporary solution as it would not fully address the structural issues in the long term.

In addition to the structural issues, the bridge is not up to modern day standards:

- The current levels of traffic are beyond the capacity of a two lane, dual carriageway.
- The bridge has no hard shoulder facility. A vehicle breakdown can result in long delays causing queues on the approach to the bridge.
- When congestion occurs, emergency services struggle to cross the bridge.
- The footpath on the bridge is very narrow.
- The central reserve and parapets are substandard.

We believe that the best solution is to consider proposals to replace the bridge to improve safety, provide greater resilience and enhance journey time reliability.



MOTT MACDONALD
Richards, Moorehead & Laing Ltd

# Datblygu ateb

# Developing a solution

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

## Mae Llywodraeth Cymru a NMWTRA wedi comisiynu Mott MacDonald a'u partneriaid, Richards, Morehead & Laing i ystyried opsiynau posibl ar gyfer cael pont newydd yn lle Pont Afon Dyfrdwy yr A494.

Drwy gydweithio â rhanddeiliaid allweddol, fel cynrychiolwyr lleol, busnesau a grwpiau â diddordeb, rydym eisiau deall y problemau presennol sy'n wynebu defnyddwyr y bont a sut mae'r rhain yn effeithio ar y gymuned leol. Byddwn hefyd yn ystyried yr heriau a allai effeithio ar sut caiff y bont ei defnyddio yn y dyfodol.

Bydd hyn yn ein galluogi i nodi opsiynau posibl sy'n mynd i'r afael â phroblemau lleol a heriau'r dyfodol. Bydd yr opsiynau hyn yn cael eu hasesu gan ddefnyddio WelTAG, sef canllawiau arfarnu trafnidiaeth Llywodraeth Cymru. Pwrpas WelTAG yw sicrhau bod cyllid y sector cyhoeddus yn cynnig:

- Gwerth da am arian;
- Manteision trafnidiaeth, economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol; ac
- Y budd mwyaf posibl gydag effaith fach iawn.

Mae WelTAG yn nodi fframwaith eang ar gyfer nodi, gwerthuso ac adolygu atebion i fynd i'r afael â materion trafnidiaeth. Mae tri phrif gam yn y broses WelTAG:

- **Cam 1:** Amlinellu achos busnes strategol
- **Cam 2:** Amlinellu achos busnes
- **Cam 3:** Achos busnes llawn

Ar hyn o bryd rydym yn gweithio ar Gam 1 a 2 WelTAG.





## The Welsh Government and NMWTRA have commissioned Mott MacDonald and their partners Richards, Morehead & Laing to identify potential options for replacing the A494 River Dee Bridge.

By working with key stakeholders, such as local representatives, businesses and interest groups, we want to develop an understanding of the current problems and issues experienced by users of the bridge and how these impact upon the local community. We will also consider the challenges which may affect how the bridge is used in the future.

This will allow us to identify potential options that address both local problems and future challenges. These options will be assessed using WelTAG, which is the transport appraisal guidance produced by Welsh Government and is aimed at ensuring public sector funding offers:

- Good value for money;
- Transport, economic, social and environmental benefits; and
- Maximum benefit with minimal impact.

WelTAG sets out a broad framework for identifying, appraising and evaluating solutions to address transport-related issues. There are three main stages of the WelTAG process:

- **Stage 1:** Strategic outline business case
- **Stage 2:** Outline business case
- **Stage 3:** Full business case

We are currently working on WelTAG Stages 1 and 2.



M M MOTT MACDONALD
Richards, Moorehead & Laing Ltd

# Ein camau nesaf

# Our next steps

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Gan weithio gyda'n rhanddeiliaid, rydym yn datblygu amcanion sy'n anelu at fynd i'r afael â'r problemau cyfredol a heriau'r dyfodol. Defnyddir yr amcanion hyn i werthuso rhestr hir o opsiynau posibl.

Ar ôl asesu'r rhestr hir, byddwn yn creu rhestr fer o gynlluniau posibl. Bydd y rhain yn cael eu gwerthuso i nodi manteision ac anfanteision pob opsiwn.

I helpu ein gwerthusiad o'r rhestr fer, bydd tîm y prosiect yn cynnal arolygon traffig, amgylcheddol a pheirianneg yn ystod yr wythnosau nesaf. Mae Llywodraeth Cymru a ACGCC yn ymddiheuro am unrhyw anghyfleustra a achosir o ganlyniad i'r arolygon hyn.

Byddwn hefyd yn gweithio gyda'n rhanddeiliaid i ofyn am eu barn ynglŷn â'r rhestr fer. Bydd y wybodaeth hon, ynghyd â'n gwerthusiad, yn ein helpu i nodi'r opsiwn gorau. Byddwn yn ei gyflwyno i'r cyhoedd yn hydref 2018.

Mae'r diagram yn nodi ein rhaglen waith. Rydym ar hyn o bryd yng nghyfnod asesu WelTAG.

Gallwch gysylltu â ni am fwy o fanylion neu i roi eich sylwadau ar ein cynigion:
*ymholiadau@acgcc.org.uk*

2018

**Asesiad a Chynllun Cychwynnol WelTAG**
**WelTAG Assessment & Preliminary Design**

Digwyddiad Gwybodaeth Gyhoeddus 1
Public Information Event 1

Asesiad Effaith ar yr Amgylchedd ac Arolygon Amgylcheddol
Environmental Impacts Assessment & Environmental Surveys

Digwyddiad Gwybodaeth Gyhoeddus 2: Cyflwyno Cynlluniau 1:2500
Public Information Event 2: Presentation of 1:2500 Plans

2019

Cyhoeddi'r Gorchmynion Drafft
Draft Orders Published

**Ymchwiliad Cyhoeddus**
**Public Inquiry**

Cyhoeddi'r Gorchmynion Drafft
Draft Orders Published

**neu**
**or**

Ddim yn Parhau
Do Not Continue

Arddangos y Gorchmynion Cyhoeddus
Public Orders Exhibition

Ymchwiliad Cyhoeddus (Lleol)
Public Inquiry (Local)

Llythyr o Benderfyniad y Gweinidog
Ministers Decision Letter

2020

Hysbysiad i Drafod Telerau
Notice to Treat

**Cynllun Manwl ac Adeiladu**
**Detail Design and Construct**

Working with our stakeholders, we are developing objectives which aim to address the current issues and future challenges that a potential scheme should deliver. These objectives will be used to evaluate a long list of potential options.

Following the assessment of the long list, we will identify a short list of potential schemes. These will be evaluated to identify the benefits and drawbacks of each option.

To help our evaluation of the short list, the project team will be undertaking traffic, environmental and engineering surveys in the coming weeks. The Welsh Government and NMWTRA apologise for any impact you may experience as a result of these surveys.

We will also work with our stakeholders to seek their thoughts on the short list. This information, combined with our evaluation, will help us identify a preferred option which we will present to the public in autumn 2018.

The diagram sets out our programme of work, we are currently at the WelTAG assessment stage.

You can contact us to request further details or provide comments on our proposals at:
*enquiries@nmwtra.org.uk*



M M MOTT MACDONALD
Richards, Moorehead & Laing Ltd